

Cyngor Cymuned Llanllyfni

Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor, Nos Fawrth y **8ed o Fawrth 2011.**

Yn bresennol oedd y Cynghorwyr Dafydd Glyn Owen (Cadair), Sharon W Jones, D Martin Williams, Harry W Owen – Talysarn; Elwyn Jones-Griffith, Ifan Glyn Jones, Iwan Lloyd Williams, Barry Bracegirdle, Dyfed Edwards (Cynghorydd Sir) – Penygroes; Hefina MW Roberts, Gwyndaf Roberts – Llanllyfni; T Les Jones – Nantlle; Eurig W Evans – Nebo; OP Huws – Cynghorydd Sir.

Gwahoddwyd Robin Farrar a Ben Gregory i'r cyfarfod i hysbysu'r Cyngor o gynllun Dyffryn Nantlle 20:20. Bydd tri cyfarfod cyhoeddus yn cael eu trefnu ar gyfer gosod cefndir i brosiect newydd. Bydd y cyntaf i weld sut mae pethau wedi datblygu drost gyfnod o amser, ac i ddathlu beth sydd yn digwydd ar hyn o bryd. Bydd ail gyfarfod i gael gweld sut fath o bethau'r hoffai bobl ei gweld yn digwydd. Trydydd cyfarfod i drafod y camau nesaf. Rhoddwyd esiampl o brosiect llwyddiannus ym Mlaenau Ffestiniog – tref werdd, twristiaeth, bwyd ac yn y blaen. Cynhelir y cyfarfodydd yn Neuadd Goffa Penygroes Ebrill 4, Ebrill 13 a Mai 23.

Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau cynllunio yn ystod y mis.

*Cafwyd copi o bolisi Ol Troed Carbon Cyngor Gwynedd, a gwybodaeth gan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni am Rhaglen Ynni'r Fro.

Penygroes

*Gofynwyd i'r Clerc gysylltu a Chyngor Gwynedd unwaith eto ynglyn a chyflwr ffordd Trem yr Wyddfa.

*Cwting – gadawyd llawer o ysbwriel ar y lle chwarae, yn cynnwys poteli gwydr wedi eu malu. Hefyd ysbwriel ar y lon ochr Eifionydd Farmers o'r bont. Byddwn yn trefnu i'r cae gael ei glirio.

*Derbyniwyd cwyn bod ieuenctid yn yfed ac yn gwneud swm ar Ffordd Clynnog yn hwyr y nos.

*Victoria Hotel – byddwn yn holi beth yw'r diweddaraf am yr adeilad yma.

Nebo

*Derbyniwyd cwyn am faw cwn ar y cae chwarae. Byddwn yn gofyn i Gyngor Gwynedd os oes posib symud yr arwydd 'Dim Cwn' oddi ar y giat fawr a'i roi ar y giat fach gan mai hon fydd yn cael ei defnyddio i fynd i fewn ac allan o'r cae. Hefyd, gofyn i'r warden gwn fynd yno yn achlysurol.

Talysarn

*Bu difrod i loches bws yn ystod y mis, a bu i weithiwr y Cyngor ail-osod y panel plastic yn ol yn ei le. Fe hysbyswyd y Cyngor gan yr Heddlu bod y rhai a achosodd y difrod wedi cael eu cosbi drwy godi ysbwriel yn y pentref..

*Bin ger yr arosfan bws Sherpa wedi malu, a darnau o'r bin wedi diflannu (tu allan i'r maes parcio ger y fainc) – byddwn yn cysylltu gyda Cyngor Gwynedd.

*Pont Boncen Eithin angen ei thrwsio, unwaith eto byddwn yn cysylltu gyda Cyngor Gwynedd.

Nantlle Lon o Nantlle i Talysarn yn dyllog ac angen sylw. Byddwn yn cysylltu gyda Cyngor Gwynedd.